# Yn fanwl – Amddiffyn Rhywogaethau

Mae darpariaethau deddfwriaeth y DU ar gyfer amddiffyn planhigion ac anifeiliaid gwyllt yn bennaf i'w cael yn Neddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (fel y'i diwygiwyd) 1981. Mae rhai rhywogaethau yn cael eu gwarchod dan ddeddfwriaeth Ewropeaidd hefyd, wedi dod yn rhan o gyfraith y DU trwy Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010. Mae rhestri o'r rhywogaethau hyn i'w cael yn atodlenni priodol y ddeddf a'r rheoliadau perthnasol. Mae'r rhai sydd i'w cael yn Sir Ddinbych wedi eu crynhoi yn y tabl isod. At hyn, amddiffynnir rhai rhwyogaethau o anifeiliaid gwyllt dan eu darpariaethau cyfreithlon eu hunain, gan gynnwys moch daear, ceirw a morloi. Mae gwaharddiad ar hela morfilod yn holl ddyfroedd y DU.

Mae'r darnau deddfwriaeth hyn yn fras yn gwahardd lladd, anafu, cymryd neu werthu'r anifeiliaid a'r planhigion hynny a restrir yn yr atodlen briodol. Mae hefyd yn drosedd niweidio, dinistrio neu rwystro mynediad i unrhyw lle y mae anifail o'r fath yn ei ddefnyddio ar gyfer lloches, amddiffyniad neu fridio, ac eithrio mewn tŷ annedd, er yn achos yr ystlum mae hyn yn ymestyn i dai anedd, ac eithrio mannau byw, a rhaid gofyn am gyngor asiantaeth cadwraeth natur cyn achosi niwed neu rwystro mynediad o'r fath. Yng Nghymru, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yw'r corff, ac mae mwy o wybodaeth ar eu gwefan hwy: www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk.



*Pathew, Rhywogaeth Ewropeaidd a Amddiffynnir (Natural England)*

Caiff rhai gweithredoedd a waherddir dan y ddeddfwriaeth gael eu hawdurdodi gyda thrwydded gan yr awdurdod priodol i ddibenion gwyddoniaeth, addysg, cadwraeth a ffotograffiaeth, datblygiad, i amddiffyn iechyd neu ddiogelwch cyhoeddus, i rwystro lledaenu afiechyd neu i rwystro niwed difrifol i dda byw, cnydau, pren sy'n tyfu, eiddo neu bysgodfeydd. Unwaith eto, mae cyngor ar drwyddedu ar gael ar wefan CNC. Nid yw'n drosedd mynd ag anifail a amddiffynnir sydd wedi ei anafu gyda'r diben o ofalu amdano a'i ddychwelyd i'r gwyllr neu i ladd anifail o'r fath os nad oes cyfle rhesymol y bydd yn gwella, ond dylid gofyn am gyngor gan y corff priodol.

Mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r prif rywogaethau a amddiffynnir sydd i'w cael yn Sir Ddinbych a'r ddeddfwriaeth berthnasol.

| **Amddiffyniad** | **Rhywogaeth** | **Pwysigrwydd** | **Deddfwriaeth allweddol** |
|---|---|---|---|
| | Madfall cribog mawr | Rhynwgladol | Cyfarwyddyd Cynefinoedd UE; Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010; Deddf Bywyd Gwyllt |
| | Ystlumod (pob math) | | |
| | Dyfrgi | | |
| | Pathew | | |
| | Madfall y twyni | | |
| | Llyffant cefnfelyn | | |
| | Llyriad nofiadwy (*Luronium natans*) | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Statudol | Dolffin (pob math) | | a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd) |
| | Llamhidydd (pob math) | | |
| | Llygoden y dŵr | Cenedlaethol | Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd) |
| | Wiwer goch | | |
| | Bele'r coed | | |
| | Holl ymlusgiaid (neidr ddefaid, madfall, neidr lwyd) | | |
| | Holl amffibiaid (gwerthu yn unig wedi ei wahardd) (llyffant melyn, llyffant du, madfall palfog, madfall llyfn) | | |
| | Tylluan wen | | |
| | Holl adar nythu | | |
| | Mochyn daear | | Deddf Amddiffyn Moch Daear 1992 |
| | Ceirw | | Deddf Ceirw 1970 |
| | Morloi | | Deddf Cadwraeth Morloi 1970 |
| Anstatudol | Rhywogaethau o bwysigrwydd mawr i gadwraeth (rhestr adran 42) – nawr dros 1,000. Mae'r rhestr lawn i'w gweld ar wefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru | Cenedlaethol | Deddf Amgylchedd Anturiol a Chymunedau Gwledig (NERC) 2006 |
| | Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol (LBAP) rhywogaethau blaenoriaeth lleol – gweler adran LBAP y wefan | Lleol | |

**Rhywogaeth a Warchodir gan Ewrop (EPS):**
**(madfallodd cribog mawr, ystlumod, pathew, madfall y twyni, llyffant cefnfelyn)**

Amddiffynnir dan reoliad 41 Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 ac Adran 9 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd). Dan y darnau hyn o ddeddfwriaeth, mae'n drosedd:

- Lladd, cymryd neu anafu EPS yn fwriadol;
- Niweidio, dinistrio neu rwystro mynediad i le a ddefnyddir ar gyfer bridio, gorffwys, lloches neu amddiffyn (boed yn bresennol ai peidio) neu aflonyddu ar EPS mewn lle o'r fath;
- Meddiannu neu reoli EPS, yn fyw neu'n farw, neu unrhw ran ohonynt, neu unrhyw beth sydd wedi dod ohonynt;
- Gwerthu, cynnig ar werth, hysbysebu ar werth neu gynnig prynu EPS, neu unrhyw ran ohonynt neu unrhyw beth sydd wedi dod ohonynt;
- Aflonyddu'n fwriadol neu fynd neu ddinistrio wyau EPS yn fwriadol (e.e. madfall cribog mawr)

Mae troseddau dan adran 9 yn golygu uchafswm cosb o ddirwy hyd at £5,000, carchar am hyd at chwe mis, neu'r ddau, am bob anifail mewn perthynas â'r hwn y cyflawnwyd y drosedd.

Gellir rhoi trwydded er mwyn caniatáu gweithgareddau a fyddai'n golygu trosedd dan y ddeddfwriaeth. Rhoddir rhai i ddibenion penodol gan gynnwys astudiaeth wyddonol, ffotograffiaeth, rheoli cadwraeth a datblygu.

**Llygoden y dŵr:**

Mae llygoden y dŵr a'i chynefin yn cael amddiffyniad dan Adran 9 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd). Dan y ddeddfwriaeth, mae'n drosedd:

- Lladd, cymryd neu anafu llygoden y dŵr yn fwriadol;
- Meddiannu neu reoli llygoden y dŵr, yn fyw neu'n farw, neu unrhyw ran ohoni, neu unrhyw beth sydd wedi dod ohoni;
- Niweidio, dinistrio neu rwystro mynediad i le a ddefnyddir gan lygoden y dŵr ar gyfer lloches neu amddiffyn;
- Aflonyddu ar lygoden y dŵr yn fwriadol neu'n ddiofal tra mae mewn strwythur neu le y mae'n ei ddefnyddio ar gyfer lloches neu amddiffyn;
- Gwerthu, cynnig ar werth, hysbysebu ar werth, neu fod â llygod y dŵr yn eich meddiant neu eu cludo i ddibenion gwerthu, yn fyw neu'n farw, neu unrhyw ran o lygoden y dŵr neu unrhyw beth sydd wedi dod ohono;
- Cyhoeddi unrhyw hysbyseb neu achosi i hysbyseb gael ei gyhoeddi, sy'n debygol o gael ei ddeall fel hysbyseb sy'n cyfleu bod person yn prynu neu'n gwerthu, neu'n bwriadu prynu neu werthu, unrhyw rai o'r uchod.

Mae troseddau dan adran 9 yn golygu uchafswm cosb o ddirwy hyd at £5,000, carchar am hyd at chwe mis, neu'r ddau, am bob anifail mewn perthynas â'r hwn y cyflawnwyd y drosedd.

**Wiwer goch:**



*Amddiffynnir y wiwer goch dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, ynghyd â'i chynefin (Natural England)*

Mae'r wiwer goch a'i chynefin hefyd wedi ei hamddiffyn dan Adran 9 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd). Dan y ddeddfwriaeth mae'n drosedd:

- Lladd, anafu neu gymryd yn fwriadol wiwer goch;
- anafu neu ddinistrio yn fwriadol neu'n ddiofal unrhyw strwythur neu le y mae'r wiwer goch yn ei ddefnyddio ar gyfer amddiffyn neu loches, neu aflonyddu ar wiwer goch pan fydd mewn lle o'r fath;
- meddiannu wiwer goch fyw neu farw, neu unrhyw ran o wiwer goch, oni ellir dangos bod yr anifail wedi ei gymryd yn gyfreithlon;
- gwerthu neu gynnig ar werth gwiwer goch wyllt neu unrhyw ran o wiwer goch wyllt.

Dan adran 11 y Ddeddf, mae hefyd yn anghyfreithlon:

- Gosod magl, rhwyden, dyfais drydanol i ladd neu daro'n anymwybodol neu ddefnyddio unrhyw sylwedd gwenwynig neu bensyfrdanol; defnyddio abwyd, nwy neu fwg, bwa neu groesfwa, ffrwydron, arfau awtomatig neu gerbydau mecanyddol sydd o natur o'r fath ac wedi eu dodi mewn lle fel yr ystyrir anaf corfforol i wiwer goch.

Mae troseddau dan adran 9 yn golygu uchafswm cosb o ddirwy hyd at £5,000, carchar am hyd at chwe mis, neu'r ddau, am bob anifail mewn perthynas â'r hwn y cyflawnwyd y drosedd.

**Rhywogaethau adar**

Mae holl adar gwyllt, eu wyau a'u nythod yn cael eu hamddiffyn dan adran 1 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981. At hyn, mae rhai rhywogaethau'n cael amddiffyniad ychwanegol dan atodlen 1 y ddeddf oherwydd eu prinder. Dan y ddeddf, mae'n drosedd:

- Lladd, anafu, cymryd neu feddiannu yn fwriadol unrhyw aderyn gwyllt – hyd yn oed i roi modrwy arnynt;
- Defnyddio dulliau creulon neu ddiwahân o ladd neu ddal adar gwyllt;
- Cymryd, niweidio neu ddinistrio nyth neu wyau adar gwyllt (mae nythod gwalch y pysgod wedi eu hamddiffyn trwy gydol y flwyddyn)
- Gwerthu neu arddangos mewn cystadleuaeth unrhyw aderyn gwyllt (nid yw hyn yn cynnwys rhai rhywogaethau os yw wedi ei fagu mewn caethiwed a'i fodrwyo);



*Amddiffynnir holl nythod pan fo adar ynddynt, fel y byth aderyn du yma gyda chywion (Lizzy Webster)*

- Gwerthu unrhyw aderyn gwyllt marw (ac eithrio rhai adar hela yn y tymor);
- gwerthu adar unrhyw rywogaeth Prydeinig aderyn gwyllt;
- yn fwriadol neu'n ddiofal aflonyddu ar unrhyw aderyn gwyllt a amddiffynnir (Atodlen 1) pan mae'n adeiladu nyth, nythu neu aflonyddu ar adar ifanc dibynnol.

Mae eithriadau i'r rhain weithiau os yw aderyn yn wael neu wedi ei anafu. Gellir mynd â'r aderyn gyda'r bwriad o'i ryddhau pan yn ffit neu i'w ladd os na fydd yn debygol o wella. Hefyd lle mae trosedd yn anfwriadol o ganlyniad i weithrediad cyfreithlon na ellid ei osgoi yn rhesymol.

Gellir cymryd neu ladd rhai adar y tu allan i'r tymor caeëdig:

- hwyaden gopog
- hwyaden wyllt
- hwyaden gynffonfain
- hwyaden bengoch
- hwyad lydanbig
- corhwyad
- chwiwell
- corshwyaden wyllt
- hwyaden llygad aur
- gwydd Canada
- gwydd wyllt
- gwydd droedbinc
- gwydd gwyndorch
- cwtiar
- iar ddwr
- cwtiad aur
- gïach
- cyffylog

Gellir hefyd rhoi trwydded gan Lywodraeth Cymru sy'n caniatáu lladd neu gymryd rhai adar, eu nythod a'r adar ifanc er mwyn rhwystro niwed difrifol i amaethyddiaeth neu i warchod diogelwch neu iechyd cyhoeddus, neu i warchod adar gwyllt:

- bran dyddyn
- gwylan gefnddu fwyaf
- ydfran
- sgrech y coed
- gwylan gefnddu leiaf
- ysguthan
- colomen wyllt
- pioden
- aderyn to
- jac-do
- drudwy
- gwylan y penwaig
- turtur dorchog

Mae trwyddedau hefyd ar gael gan CNC i ymgymryd â gweithgareddau a fyddai fel arall yn anghyfreithlon, gan gynnwys aflonyddu ar adar i ddibenion astudiaeth wyddonol, ffotograffiaeth, rheoli cadwraeth a rhwystro niwed i gnydau ac eiddo.

Mae'r adar gwyllt canlynol yn cael amddiffyniad arbennig bob amser:

- Pig
- hebog
- rhegen fraith
- tylluan wen
- boda'r mêl
- gylfinir y garreg
- titw barfog
- copog
- pibydd Temminck
- gwenynysor
- cwtiad Caint
- hwyaden felfedog
- alarch Bewick
- glas y dorlan
- coegylfinir
- aderyn y bwn
- bras y Gogledd
- eryr tinwyn
- gwyach glustiog
- pedryn cynffon fforchog
- alarch y gogledd
- tingoch du
- aderyn y bwn lleiaf
- ehedydd y coed
- rhostog cynffonddu
- gwylan fach
- pibydd y graean
- môr-wennol ddu
- cwtiad torchog
- aderyn gyddfgam
- cwtyn hirgoes adeinddu
- môr-wennol fach
- bronlas
- hwyaden gynffon wennol
- bronrhuddyn
- telor y gors
- telor Cetti
- gwylan môr y canoldir
- brân goesgoch
- gwalch bach
- bras Ffrainc
- gwalch y pysgod
- sofliar
- hebog tramor
- môr-hwyaden ddu
- crëyr porffor
- rhegen yr yd
- pibydd du
- titw cribog
- cigydd cefngoch
- croesbig (pob math)
- barcut
- telor Dartford
- pibydd llydandroed gyddfgoch
- trochwyr (pob math)
- asgell goch
- hutan
- môr-wennol wridog
- caseg y ddrycin
- colomen grech
- dryw penfflamgoch
- telor Savi
- hwyaden adfain
- gylfinbraff ysgarlad
- eryr aur
- hwyaden benddu
- euryn
- caneri gwyllt

- gosog
- ehedydd y traeth
- pibydd gwyrdd
- dringwr troedfyr
- pibydd coeswerdd
- gwyach gorniog
- hebig chwyldro
- bras yr eira
- boda (pob math)
- tylluan yr eira
- llydanbig

Mae rhai adar gwyllt yn cael eu hamddiffyn yn arbennig yn ystod y tymor caeëdig:

- hwyaden llygad aur
- gwydd wyllt (yn yr Hebrides Allanol, Caithness, Sutherland a Wester Ross yn unig)
- hwyaden gynffonfain



*Mae'r fôr-wennol fach yn cael amddiffyniad arbennig bob amser. (John Power)*

**Ymlusgiaid (ac eithrio madfall y twyni a'r neidr lefn h.y. madfall cyffredin, gwiber, neidr ddefaid a neidr lwyd):**

Mae holl rywogaethau ymlusgiaid Prydain wedi eu hamddiffyn yn erbyn lladd bwriadol, niwed neu werthu dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd). Mae madfall y twyni a'r neidr lefn yn cael amddiffyniad uwch dan Reoliad 41 Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 – gweler uchod.

Mae eithriadau'n bosibl os yw'r anifail yn wael neu wedi ei anafu ac wedi ei gymryd er mwyn ei drin gyda'r bwriad o'i ryddhau gan fydd yn well neu lle caiff ei ladd oherwydd anaf neu salwch difrifol neu lle nad oes modd osgoi lladd ac yn anfwriadol oherwydd camau cyfreithiol.

**Amffibiaid (ac eithrio madfall cribog mawr e.e. llyffant melyn, llyffant du, madfall palfog, madfall llyfn):**

Mae holl rywogaethau amffibiaid Prydain wedi eu hamddiffyn yn erbyn lladd bwriadol, niwed neu werthu dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd). Mae'r madfall cribog mawr yn cael amddiffyniad uwch dan Reoliad 41 Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 – gweler uchod.

**Moch daear:**

Amddiffynnir dan Ddeddf Amddiffyn Moch Daear 1992 ac wedi eu cynnwys yn Atodlen 6 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd). Mae'r ddeddfwriaeth yn amddiffyn moch daear yn erbyn niwed neu anaf bwriadol gan ei gwneud yn drosedd:

- lladd, anafu neu gymryd neu geisio lladd, anafu neu gymryd mochyn daear;
- meddiannu neu reoli urnhyw fochyn daear marw neu unrhyw ran o fochyn daear;

- camdrin mochyn daear yn greulon, defnyddio gefeiliau mochyn daear, cloddio am fochyn daear neu ddefnyddio arfau calibr bach i ladd neu gymryd mochyn daear;
- gwerthu neu gynnig gwerthu mochyn daear byw;
- ymyrryd gyda gwal trwy ei niweidio neu ei dinistrio;
- rhwystro mynediad i wâl mochyn daear;
- aflonyddu ar fochyn daear pan fydd yn ei wâl;
- cael mochyn daear byw yn eich meddiant neu reolaeth;
- marcio neu ddodi unrhyw ddyfais ar fochyn daear.

Mae eithriadau yn bosibl lle mae mochyn daear anabl wedi ei gymryd er mwyn ei drin, lle caiff ei ladd oherwydd anaf difrifol neu salwch neu lle na ellir osgoi lladd o ganlyniad anfwriadol i gamau cyfreithiol.

Mae cosbau yn cynnwys dirwyon hyd at £5,000, ynghyd â chwe mis yn y carchar am bob achos o ymyrryd gyda gwal mochyn daear, anaf neu farwolaeth mochyn daear.
Mae gwaith heb drwydded a fydd yn aflonyddu ar foch daear pan fyddant yn y wâl yn anghyfreithlon. Gall aflonyddu ddigwydd heb ymyrraeth uniongyrchol neu niwed i wâl. Yn gyffredinol, mae'r gweithgareddau canlynol yn debygol o fod angen trwydded:

- defnyddio peiriannau trymion neu beiriannau symud pridd arwyddocaol o fewn 30m i wâl;
- defnyddio peiriannau ysgafnach (fel rheol unrhyw gerbydau ag olwynion) o fewn 20m o wâl;
- unrhyw gloddio, defnyddio llif gadwyn neu glirio prysgwydd o fewn 10m i wâl.

**Pysgod:**

Mae rhai pysgod yn cael yr un amddiffyniad â mamaliaid dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd). Mae cyfreithiau pellach yn delio â physgod hela megis eog, sewin, brithyll a phenllwyd. Dan y cyfreithiau hyn mae'n drosedd:
- dwyn y pysgod hyn;
- tynnu pysgod hela o ddyfroedd stocio

Mae troseddau eraill megis potsio wedi eu nodi yn Neddf Pysgodfeydd Eog a Dŵr Croyw a'r Ddeddf Eog a'r Ddeddf Ladrata.
Mae'r rhywogaethau canlynol yn cael amddiffyniad llawn dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd):
- heulforgi
- llofen
- gobi Couch
- stwrsiwn (hefyd wedi ei amddiffyn dan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a rhywogaethau 2010)
- gwyniad
- gwyniad (coregonus)
- gwyniad mawr y môr



ERROR: stackunderflow
OFFENDING COMMAND: ~

STACK: